COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWYD HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DYDD MAWRTH, 21 GORFFENNAF 2026 14:30

Presennol – O Bell

Y Cynghorydd JC Spanswick – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| GC Haines | C Davies | J Gebbie | E L P Caparros |
| M J Evans | M Jones | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD ac Etholiadau |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Carys Lord | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid |
| Darren Jones | Rheolwr Grŵp – Gwella Ysgolion |
| Gayle Shenton | Pennaeth Dysgu |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd |
| Oscar Roberts | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

## 650. Ymddiheuriadau am absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Hywel Williams a Martyn Jones. Ymunodd y Cynghorydd Jones â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar eitem 5. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

## 651. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Derbyniwyd y datganiadau buddiant canlynol:-<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Jane Gebbie ddatgan buddiant personol yn eitem 9 gan ei bod yn Llywodraethwr yr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd Martyn Jones ddatgan buddiant personol yn eitem 6, gan ei fod yn Llywodraethwr yr Awdurdod Addysg Lleol yn Ffederasiwn Cwm Garw. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

## 652. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cabinet ar 24/06/2026 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

## 653. Darparu Gwasanaethau Byw â Chymorth Cyffredinol

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant, oedd tynnu sylw at y trefniadau presennol a'r trefniadau arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Byw â Chymorth Cyffredinol a gomisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) a gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn y tendr ar gyfer ailgomisiynu Gwasanaethau Byw â Chymorth Cyffredinol ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Gofynnodd aelodau gwestiynau ynghylch:<br><br>• A fydd modd cynnal y ffocws presennol yng ngoleuni heriau'r dyfodol?<br>• Grantiau sy'n cefnogi ariannu o fewn y gwasanaeth.<br><br>Atebwyd y cwestiynau hyn gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles a'r |

| | |
|---|---|
| | Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo ailgomisiynu 'Gwasanaeth Byw â Chymorth Cyffredinol' fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

**654. Canlyniadau Arolygiadau Estyn o Ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr o Dymor yr Haf 2025 hyd at Ddiwedd Tymor y Gwanwyn 2026**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol  Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, oedd hysbysu'r Cabinet am ganlyniadau ymweliadau arolygu craidd Estyn o dymor yr haf 2025 hyd at ddiwedd tymor y gwanwyn 2026 ar gyfer yr ysgolion canlynol (yn nhrefn dyddiadau'r arolygiadau): Ysgol y Ferch o'r Sgêr; Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd; Ysgol Gynradd Llidiart; Ysgol Gynradd Tremaen; Ysgol Gynradd Llangynwyd; Ysgol Gynradd Tynyrheol; Ysgol Bryn Castell; Ysgol Cynwyd Sant; Ysgol Gynradd Penybont; ac Ysgol Gyfun Cynffig.<br><br>Hefyd, hysbysodd yr adroddiad y Cabinet am ganlyniadau ymweliadau interim Estyn o dymor yr haf 2025 hyd at dymor yr haf 2026, yn ogystal â gwybodaeth am ymweliadau dilynol Estyn ag Ysgol Gynradd Blaengarw ac Ysgol Gynradd Bryncethin, a'u tynnu allan o gategorïau dilynol Estyn.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch:<br><br>• Effaith cyfraddau arolygu uchel Estyn ar ddarpariaeth addysg.<br>• Cynlluniau yn eu lle i gefnogi gwelliannau mewn presenoldeb ac ymgysylltiad.<br>• Mesurau Anghenion Dysgu Ychwanegol yn un o'r ysgolion a grybwyllwyd yn yr adroddiad a manylion am ganlyniadau'r mesurau hynny.<br><br>Atebwyd y cwestiynau hyn gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, Rheolwr Grŵp Gwella Ysgolion a Phennaeth Dysgu.<br><br>Diolchodd y Cabinet a'r swyddogion oedd yn bresennol i'r Penaethiaid, yr ysgolion a'r timau a gymerodd ran yn yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi cynnwys yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

## 655. Ffederasiwn Ysgol Gynradd Tynyrheol a Ffederasiwn Cwm Garw

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, oedd cefnogi cyrff llywodraethu Ffederasiwn Cwm Garw ac Ysgol Gynradd Tynyrheol i symud ymlaen â chynnig ar y cyd i sefydlu ffederasiwn ffurfiol, i gael ei galw yn Ffederasiwn Cwm Garw, gan ddod i rym o 1 Medi 2026.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch:<br><br>• Dulliau eraill posibl o ddefnyddio'r model hwn.<br>• Manteision a chostau'r model hwn.<br><br>Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Addysg, y Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc, a Rheolwr Grŵp Gwella Ysgolion.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi'r cynnig oedd yn cael ei symud yn ei flaen gan y cyrff llywodraethu o dan y broses ffedereiddio statudol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

## 656. Monitro Cyllideb 2026-27 – Rhagolwg Refeniw Chwarter 1

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am sefyllfa ariannol refeniw'r Cyngor ar y 30ain o Fehefin 2026.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiwn ynghylch y rhesymau dros gynnydd mawr mewn Gofal Cartref i Bobl Hŷn. Atebwyd y cwestiwn hwn gan Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi'r sefyllfa refeniw a ragwelid ar gyfer 2026-27. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

**657. Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2025-26**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Gyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid, oedd cydymffurfio â gofyniad 'Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer' (y Cod TM) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i roi trosolwg ar weithgareddau'r trysorlys dros y flwyddyn ariannol flaenorol, yn ogystal ag adrodd am Ddangosyddion gwirioneddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2025-26.<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiynau ynghylch:<br><br>• Dibynadwyedd Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr fel buddsoddiad.<br>• Cyfleoedd posibl i ddefnyddio buddsoddiadau pellach i wneud gwelliannau yn y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid, a gytunodd i ddarparu rhagor o wybodaeth am ddibynadwyedd buddsoddiadau CBSP y tu allan i'r cyfarfod.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>: bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>• Nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys am flwyddyn ariannol 2025-26.<br>• Nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod oedd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026 yn erbyn y rheiny a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli Trysorlys 2025-26. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

**658. Alldro Rhaglen Gyfalaf 2025-26 a Diweddariad Chwarter 1 2026-27**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan Aelod y Cabinet dros Gyllid a Thrawsnewid, oedd gwneud y canlynol: |

| | |
|---|---|
| | 1. Cydymffurfio â gofyniad 'Y Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol' Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i adrodd am berfformiad yn erbyn pob dangosydd oedd yn edrych ymlaen fesul chwarter.<br><br>2. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am alldro'r rhaglen gyfalaf am 2025-26 (Atodiad A i'r adroddiad).<br><br>3. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar sefyllfa'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2026-27 ar 30 Mehefin 2026 (Atodiad B i'r adroddiad).<br><br>4. Gofyn am gytundeb y Cabinet i ddirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol a Chyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid, mewn ymgynghoriad â'r Aelod perthnasol o'r Cabinet i gwblhau rhaglen a mecanweithiau cyflawni Cronfa'r Effaith Gymunedol.<br><br>5. Gofyn am gytundeb y Cabinet i gyflwyno adroddiad i'r Cyngor i gymeradwyo rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2026-27 i 2035-36 (Atodiad C i'r adroddiad).<br><br>6. Gofyn i'r Cabinet nodi'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2025-26 a'r Dangosyddion Darbodus ac Eraill a ragwelid ar gyfer 2026-27 (Atodiad D i'r adroddiad).<br><br>Gofynnodd yr aelodau gwestiwn am fanylion y cronfeydd a glustnodwyd ar gyfer menter anhyfyw. Atebwyd y cwestiwn hwn gan Gyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>: Bod y Cabinet yn gwneud y canlynol:<br><br>1. nodi Alldro Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2025-26 (Atodiad A i'r adroddiad).<br><br>2. nodi diweddariad Chwarter 1 Rhaglen Gyfalaf 2026-27 y Cyngor hyd at 30 Mehefin 2026 (Atodiad B i'r adroddiad).<br><br>3. cytuno i ddirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â Phrif Swyddog y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddiol ac Etholiadol a Chyfarwyddwr Corfforaethol Cyllid a Thrawsnewid, mewn |

| | |
|---|---|
| | ymgynghoriad â'r Aelod perthnasol o'r Cabinet i gwblhau rhaglen a mecanweithiau cyflawni Cronfa'r Effaith Gymunedol ar yr amod bod y Cyngor yn cymeradwyo'r gronfa i'r Rhaglen Gyfalaf.<br><br>4. cytuno y dylid cyflwyno'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad C i'r adroddiad) i'r Cyngor i'w chymeradwyo.<br><br>5. Nodi'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2025-26 a'r dangosyddion a ragwelid ar gyfer 2026-27 (Atodiad D i'r adroddiad). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

**659. Materion Brys**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Dim. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

**660. Gwahardd y Cyhoedd**

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> O dan adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad At Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, bod y cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitem ganlynol o fusnes gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth wedi'i heithrio fel y'i diffinnir ym mharagraff 12 o ran 4 a pharagraff 21 o ran 5 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.<br><br>Ar ôl cymhwyso'r prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, i ystyried yr eitem a oedd wedi'i dan grybwyll yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth |

| | |
|---|---|
| | iddynt sydd wedi'i eithrio fel y nodwyd uchod. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

## 661. Partneriaeth Byw'n Iach – Model Asiantaeth

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Roedd y penderfyniad hwn wedi'i eithrio. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 21 Gorffennaf 2026 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Terfynwyd y cyfarfod yn 15:32